***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

ATODLEN 7

PARTNERIAETHAU

**RHAN 6**

TRAFODIADAU ERAILL SY'N YMWNEUD Â PHARTNERIAETHAU

*Trosglwyddo buddiant trethadwy o bartneriaeth i bartneriaeth*

29 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan drosglwyddir buddiant trethadwy o bartneriaeth i bartneriaeth, a

(b) pan fo'r trosglwyddiad—

(i) yn drafodiad y mae paragraff 13 (trosglwyddo buddiant trethadwy i bartneriaeth) yn gymwys iddo, a

(ii) hefyd yn drafodiad y mae paragraff 21 (trosglwyddo buddiant trethadwy o bartneriaeth) yn gymwys iddo.

(2) Nid yw paragraffau 13(3) ac 21(2) yn gymwys.

(3) Cymerir mai'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y trafodiad yw'r hyn a fyddai pe bai paragraff 13(3) yn gymwys neu, os yw'n fwy na hynny, yr hyn a fyddai pe bai paragraff 21(2) yn gymwys.

(4) Pan fo'r holl gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer trafodiad, neu ran ohoni, ar ffurf rhent—

(a) nid yw paragraff 31 yn gymwys;

(b) cymerir mai'r dreth sydd i'w chodi mewn cysylltiad â hynny o'r gydnabyddiaeth drethadwy sydd ar ffurf rhent yw'r mwyaf o—

(i) y dreth a fyddai i'w chodi pe bai paragraff 31 yn gymwys mewn perthynas â thrafodiad y mae paragraff 13 yn gymwys iddo, neu

(ii) y dreth a fyddai i'w chodi pe bai paragraff 31 yn gymwys mewn perthynas â thrafodiad y mae paragraff 21 yn gymwys iddo;

(c) mae datgymhwyso'r band cyfradd sero y darperir ar ei gyfer gan baragraff 34 o Atodlen 6 yn cael effaith pe bai wedi cael effaith pe bai paragraff 31(6) o'r Atodlen hon yn gymwys.